

28/09/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Diolch am eich cydweithrediad gyda'r cam i hunan ynysu pob disgybl ym mlwyddyn 8 ddoe. Deallwn yn llwyr y goblygiadau i'r penderfyniad ar ein teuluoedd a gwyddwn y cawn eich cefnogaeth er mwyn cymryd camau i ddiogelu iechyd ein disgyblion drwy sicrhau bod eich plentyn yn dilyn rheolau hunan-ynysu .

Byddwn yn parhau i ddarparu addysg i'ch plentyn tra byddant i ffwrdd o'r ysgol. Bydd gwersi dysgu cyfunol yn dechrau o fore dydd Mawrth y 29/09/20 ar 'Teams'. Bydd gwahoddiad i Flwyddyn 8 gyfan i ymuno â'r wers gyntaf yn fyw ar Teams yn ystod gwers 1 yfory yn brydlon am 9.00 (ceisiwch fewngofnodi cyn hynny). Yn dilyn hyn, bydd gwersi yn digwydd yn unol ag amserlen eich plentyn a bydd yr athrawon ar gael yn ystod y gwersi hyn i ateb unrhyw gwestiynau am y gwaith. Bydd disgyblion yn derbyn gwaith i'w gwblhau yn ystod y dydd heddiw hefyd ar 'Teams' a bydd disgwyl i'ch plentyn wirio SMHW a Teams bob dydd yn ystod y pythefnos nesaf er mwyn gwirio'r gwaith. (Gweler y canllawiau ffrydio'n fyw isod.)

Fel y gwyddoch, o'r llythyr amserol aeth allan ddydd Gwener, mae pecynnau gwaith eich plentyn gyda nhw adref (os na, cysylltwch gyda'r swyddfa gan roi manylion o ba becynnau sydd ar goll). Hefyd, os nad oes mynediad gan eich plentyn i gliniadur, yna cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan (VaughanN9@hwbcymru.net), neu Mr Omar Bechar (BecharO@hwbcymru.net) fel y gallwn drefnu 'benthyg' offer i'ch plentyn am y cyfnod o hunan-ynysu.

Mae ymateb y disgyblion i'w dysgu wedi bod yn dda iawn ers dechrau'r tymor. Tra'n hunan-ynysu, mae'n bwysig bod eich plentyn yn sefydlu trefniadau gweithio cadarn a gofynnwn i chi bwysleisio a chefnogi yn gryf gyda hyn. Byddwn yn darparu gwersi yn ystod y dydd a gofynnwn i'ch plentyn i ymrwymo i'w ddysgu, ond bydd rheoli ei amser o flaen y sgrîn, cymryd egwyl yn gyson a chael awyr iach neu ymarfer tu allan yn ddyddiol (yn ddiogel o fewn ffiniau'r tŷ) hefyd yn bwysig iawn i'w les.

Rydym wedi cysylltu gyda rhieni disgyblion sydd yn deilwng i brydau ysgol am ddim i rannu'r trefniadau ar gyfer eich plentyn.

Os oes unrhyw bryder gennych, rydym yma i gefnogi pob un o'n disgyblion – peidiwch ag oedi cyn cysylltu.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies



CANLLAWIAU FFRYDIO'N FYW

Mae **athrawon** yn cytuno i:

- ddarparu sesiynau byw drwy Microsoft Teams pan fo hynny'n bosib.
- ddechrau y sesiwn pump i ddeng munud cyn i'r wers ddechrau er mwyn dechrau'n brydlon
- rhoi gwybod i'r dysgwyr am wersi a drefnwyd (drwy ddefnyddio'r calendr mewn timau) yn ogystal â'r hyn fydd ei angen yn ystod y sesiwn honno (dogfennau, cyflwyniadau ac ati)
- trafod rolau a chyfrifoldebau a thiworial byr ar y system ar ddechrau pob gwrs
- hysbysu uwch dîm rheoli'r ysgol, dysgwyr a rhieni am unrhyw wersi a ganslwyd neu newidiadau mewn trefniadau
- sicrhau nad yw recordiadau o'r sesiwn yn cael eu gwneud yn gyhoeddus
- sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys polisiau diogelwch ar-lein, diogelu a diogelu data
- atal sefyllfa un i un ar ddiwedd dosbarth ar-lein drwy ddatgysylltu'r holl gyfranogwyr o Teams.

Mae'r **disgybl** yn cytuno i:

- baratoi ar gyfer y sesiwn mewn digon o amser ac ymuno â'r sesiwn ar ôl i aelod o staff ddechrau'r sesiwn
- gael gafael ar y ffeiliau perthnasol ar gyfer pob gwrs o flaen llaw a bod y deunyddiau wrth law
- sicrhau fod eu dyfais wedi'i phweru o'r prif gyflenwad a bod ganddynt gysylltiad rhyngwrwyd da ac nad ydynt yn rhy bell o'r llwybrydd wi-fi
- ddewis gweithle priodol lle na fydd Aelodau eraill o'r teulu yn cerdded o gwmpas a'n tarfu ac esbonio i'r teulu eu bod yn dechrau gwrs – ni ddylai hyn fod yn eu ystafell wely
- lleihau ymyriadau. Diffoddwch gerddoriaeth, teledu, ffôn, Xbox yn y cefndir. Ddim yn effeithio ar brofiad y wers i ddisgyblion eraill
- Sicrhewch eich bod yn gwisgo'n addas ac yn trin y wers fel y byddech yn yr ysgol
- dangos parch at bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein
- cyfrannu'n gadarnhaol i'r dosbarth a pheidio â bod yn aflonyddgar ar unrhyw adeg.
- ddefnyddio'r offeryn dwylo i fyny i sicrhau nad ydych chi'n siarad dros eraill
- Gall rhieni wrando ar wersi, cefnogi eu disgyblion ond ni ddylent ofyn cwestiynau na siarad ar ran eu plentyn
- Dylai unrhyw sylwadau neu gwestiynau fod ar y pwnc sy'n cael ei drafod
- Bydd unrhyw sylwadau neu gwestiynau sy'n amhriodol yn cael eu dileu



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur

- Dylai ymddygiad mewn gwers ar-lein fod yn ôl y disgwyl mewn unrhyw wersi a bydd polisi ymddygiad yr ysgol yn delio ag unrhyw amhariad.
- peidio â gwneud recordiadau/delweddau o'r dosbarth na'r athro/athrawes
- Mae'r dysgwyr yn cytuno i beidio â chychwyn unrhyw sesiynau byw heb fod athro yn bresennol

Caniatâd i gofnodi sesiynau ffrwd fyw

Nodwch y gall yr athro recordio gwersi Microsoft Teams. Eiddo'r ysgol yw'r cofnodion hyn ac ni chânt eu rhannu ag unrhyw gorff arall oni bai fod yna bryder diogelu.

Bydd sesiynau ffrwd fyw yn cael eu trin yn yr un modd â'r holl ddata personol eraill ac yn unol â pholisïau diogelu data'r ysgol a'r GDPR. Rwy'n deall y bydd y sesiynau Microsoft Teams y byddaf yn cymryd rhan ynddynt yn cael eu recordio.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Pennaeth : Mr Simon Davies

